# Monmouthshire Select Committee Minutes

**Meeting of Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc held at The Council Chamber, County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA on Dydd Mawrth, 12fed Tachwedd, 2019 at 10.00 am**

| Councillors Present | Officers in Attendance |
|---|---|
| Cynghorydd Sirol Tudor Thomas (Cadeirydd)<br><br>Cynghorydd Sirol: L.Brown, M.Groucutt, L.Jones, D. Jones, M.Lane, M. Powell, J.Watkins, R. Harris | Jane Rodgers, Pennaeth gwasanaethau plant<br>Nikki Wellington, Rheolwr Cyllid<br>Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu |

**Ymddiheuriadau:** Fay Middleton**,** Elizabeth Thomas

1. **Datganiadau o Fuddiant**

   Dim.

2. **Fforwm Agored i'r Cyhoedd**

   Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

3. **Craffu ar berfformiad diogelu plant.**

   Roedd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc er mwyn iddynt allu gwerthuso cynnydd blaenoriaethau diogelu allweddol y Cyngor yn ystod 2018/19 ac effeithiolrwydd diogelu yn Sir Fynwy yn gyffredinol. Amlygodd yr adroddiad risgiau a chamau lliniaru ac amlinellodd gamau gweithredu allweddol ar gyfer gwella ymhellach. Eglurodd y swyddog arweiniol, ar ôl adrodd bob chwe mis yn dilyn archwiliadau anfoddhaol blaenorol a'r awdurdod yn cael ei osod o dan 'fesurau arbennig', fod y Cyngor â llawer mwy o hyder yn y daith a wneir a bod y trefniadau adrodd yn y dyfodol i fod ar sail flynyddol. Clywodd y Pwyllgor y bydd canlyniad arolygiad diweddar gan Swyddfa Archwilio Cymru yn cael ei gyflwyno'n y dyfodol agos. Trafododd y swyddog arweiniol berfformiad y Cyngor yn fanwl, a gan gyfeirio at Atodiad 2 yr adroddiad, roedd y prif bwyntiau yn cynnwys:

   - Dylai diogelu gael ei wreiddio ym mhob gwasanaeth cyngor ac mae hunanasesiad yn cael ei gynnal ar hyn o bryd o fewn pob Cyfarwyddiaeth.

   - Mae'r Cyngor yn ymwybodol iawn o risgiau sy'n dod i'r amlwg ar ddiogelu, enghreifftiau allweddol sef caethwasiaeth fodern a chamfanteisio'n rhywiol ar blant a sut mae gan adrannau eraill y Cyngor, fel trwyddedu, rôl allweddol o ran sicrhau bod plant ac oedolion yn cael eu diogelu.

   - Mae gwasanaethau a gomisiynir yn allanol yn parhau i fod yn her gan fod angen gwirio pob gwasanaeth a gomisiynir yn drwyadl, felly o ran sgorio hunan-arfarnu,

monmouthshire
sir fynwy

mae'r sgôr yn is hyd nes ein bod wedi sicrhau bod pob adran wedi gwneud hynny a bod yr archwiliad mewnol wedi dilysu bod hynny'n wir.

**Her:**

- Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y camau mawr sydd wedi cael eu cymryd ers yr adeg pan ystyrid bod diogelu yn annigonol. Y llynedd, daeth arolygiad ar y cyd gan Estyn, Gofal Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru i'r casgliad bod arferion diogelu yn gadarn, ond bod angen i'r gwaith hwnnw barhau gyda rhai adrannau nad oes ganddynt, o bosibl, gysylltiad amlwg â diogelu. Hoffwn gael rhywfaint o sicrwydd ein bod yn gwneud hyn, a'n bod bellach wedi rhoi systemau gwell ar waith, ein bod yn ailedrych ar yr hen system i weld a yw pethau wedi llithro drwy'r rhwyd.
  *Mae llawer o haenau o ran sut rydym yn sicrhau ein hunain bod gennym y gwiriadau cywir mewn lle. Gallaf eich sicrhau bod y gwiriadau cyflogaeth mewn lle a bod y broses recriwtio fwy diogel yn sicrhau bod y bobl rydym yn eu cyflogi yn cael y gwiriadau cywir mewn lle. Nid ydym wedi tynnu ein sylw oddi ar hynny. Mae'r elfen rydym yn ei chydnabod sydd o hyd yn drosiannol, ac mae felly'n cael ei hadlewyrchu drwy ein sgorio, yw'r elfen hyfforddi. Mae pob adran yn cwblhau hunan-asesiadau SAFE ac mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â'r rhaglen ddiogelu, felly mae ein sgôr hunan-werthuso yn cydnabod, o ran dull traws-gyngor o weithredu'r system hon, ein bod yn dal i fod heb gyrraedd y nod eto. Ar hyn o bryd rydym yn dibynnu ar y broses SAFE's a'r arweinwyr diogelu yn yr adran yn ymgymryd â mwy o systemau â llaw nes ein bod yn gwbl awtomataidd. Mae'n adlewyrchiad o'r gwaith y mae angen i ni ei wneud o gwmpas hyn.*
- Mae pryderon ynghylch cysylltiadau â gwasanaethau a ddarperir gan y gymuned, ac wedi mynychu grŵp mam a'i phlentyn dan arweiniad y gymuned y llynedd, lle'r oedd yn amlwg y gallai unrhyw oedolyn ddod i'r grŵp. Yn ogystal, nid oedd Pennaeth y Ganolfan wedi ei hyfforddi ar ddiogelu. Dilynais y mater ychydig fisoedd yn ddiweddarach ac nid oedd yr unigolyn hwn wedi cael ei hyfforddi o hyd. Pa mor rhagweithiol ydym ni fel Cyngor yn mynd i gymunedau ac yn cynghori bod angen hyfforddiant ar bobl?
  *Mae hwn yn gwestiwn da iawn. Mae gennym ein gwasanaethau sy'n cael eu rhedeg yn uniongyrchol, yna ceir rhai lle mae gennym berthynas betrus ac rydym yn cymryd rhywfaint o gyfrifoldeb er bod ein rôl yn llai clir. Mae'n wir fod hyn yn achos o ran pa mor dda yw'r perthnasau. Mae angen i bob Cyfarwyddiaeth nodi grwpiau mewn cymunedau a gwneud y cysylltiadau cywir. Mae'r gwaith sy'n ymwneud â gwirfoddoli wedi rhoi llawer mwy o reolaeth i rai o'r gweithgareddau hyn, ond dyma enghraifft wych lle mae angen i bob swyddog a phob aelod etholedig allu bod yn wyliadwrus a thynnu sylw'r achosion hyn atom, yn unol â'n cyfrifoldebau statudol.*
- Mae hyn yn arwain at fater hyfforddi aelodau etholedig. A oes angen i chi weithio gydag arweinwyr grŵp i sicrhau bod pob aelod yn cael ei hyfforddi?
  *Rydym yn ei wneud, ond mae dal rhai Aelodau sydd heb gael eu hyfforddi ac mae'n anodd iawn, ond mae cyfrifoldebau'r Aelodau yn statudol ac felly, dylent i gyd fynychu hyfforddiant gorfodol.*
- O ran hyfforddiant staff, mae 48% o'r gweithlu heb gael eu hyfforddi ac mae hyn yn bryder. Pryd yr ydym yn disgwyl i 100% o'r staff fod wedi cwblhau'r hyfforddiant?

*Nid yw'r ffigurau'n cynrychioli'r sefyllfa ddiweddaraf ac mae angen i ni adolygu hyn ac asesu'r bobl lai amlwg y gallai fod angen yr hyfforddiant arnynt.*

- Mae Atodiad 3 yn sôn am derfynau amser yn nhermau camau diogelu ac mae'n ymddangos y rhagwelir y bydd y rhan fwyaf o'r camau wedi'u cwblhau erbyn Mawrth 2020. A fyddai'n bosibl i'r Pwyllgor gael adroddiad interim ym mis Ebrill 2020 er mwyn adolygu'r cynnydd a wnaed (o gofio y bydd adroddiadau'n cael eu cyflwyno bob blwyddyn bellach)?
  *Mae'n wir y disgwylir i'r rhan fwyaf o gamau gweithredu gael eu cwblhau erbyn mis Mawrth 2020 ac erbyn hynny, dylem gael adroddiad cynnydd yn erbyn pob cam gweithredu, gyda chanlyniadau, ond ni fydd y data wedi'u dilysu, felly ni fyddem mewn sefyllfa i wneud adroddiad llawn tan fis Tachwedd 2020, ond gallem baratoi adroddiad interim ar y meysydd allweddol.*
- Mae'r adroddiad yn trafod 'rheoli honiadau' ac ataliadau. Mae gennyf bryderon ynghylch ataliadau yn nhermau cyfraith achosion ddiweddar sy'n datgan nad yw gwaharddiadau yn weithred niwtral. Wrth gydnabod nad yw'r penderfyniad i atal yn cael ei wneud yn ddifeddwl, mae'r broses atal yn eithriadol o gostus ac yn peri gofid mawr, felly rwy'n bryderus ynghylch a oes gan ysgolion ganllawiau digonol ar y dull a argymhellir, i sicrhau bod pawb yn gweithredu yn unol â'r gyfraith.
  *Deallaf eich pwyntiau ynghylch atal. Mae gennym broses sy'n cefnogi cyflogeion ac mae asesiad risg i lywio'r penderfyniadau hynny, ond mae'n anodd cyffredinoli gan fod pob achos yn unigryw. Ceir proses glir a chefnogir ysgolion yn hytrach na'u bod yn cael eu gadael ar eu pen eu hunain i wneud y penderfyniad hwnnw. Mae gennym ganllawiau rhanbarthol yr ydym yn gweithio iddynt.*
- Nid ydym yn sicr a yw hyfforddiant lefel 1 ar gyfer llywodraethwyr ysgol yn ddigon a byddem yn gofyn i chi adolygu hyfforddiant ar gyfer llywodraethwyr.
- Eglurder ynghylch a yw'r hyfforddiant 'atal strategaeth' yn cwmpasu pob math o ymddygiad eithafol, a chadarnhawyd bod hynny'n wir.

**Canlyniadau a Chasgliad y Cadeirydd:**

Roedd y Pwyllgor yn fodlon â'r cynnydd a amlinellwyd yn yr adroddiad a chytunodd ar y canlyniadau canlynol:

- Byddai adolygiad diweddar SAC yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor pan gaiff ei gyhoeddi.
- I gael adroddiad cynnydd ym mis Ebrill 2020 er mwyn adolygu cynnydd ar gamau gweithredu allweddol, ynghyd â chrynodeb o'r hunanasesiadau a gynhaliwyd ym mhob un o'r cyfarwyddiaethau.
- Rydym yn gofyn i swyddogion weithio gydag arweinwyr y grwpiau gwleidyddol i sicrhau bod yr holl aelodau etholedig yn cael eu hyfforddi.
- Rydym yn gofyn i swyddogion roi eglurhad i ysgolion ar y broses ataliadau.
- Bydd y Pwyllgor yn craffu ar yr adroddiad blynyddol nesaf ym mis Tachwedd 2020.

4. **<u>Craffu ar y newidiadau arfaethedig i'r Fformiwla Ariannu Ysgolion fel rhan o'r broses ymgynghori ffurfiol.</u>**

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor er mwyn ceisio barn yr Aelodau ar y newidiadau arfaethedig i'r fformiwla ariannu ar gyfer pob ysgol, tra bod hyn dan gyfnod ymgynghori. Dywedodd y swyddog arweiniol fod yr adolygiad hwn yn adolygiad rheolaidd er mwyn sicrhau'r dosbarthiad tecaf o gyllid i ysgolion. Roedd y Fforwm Cyllido Ysgolion wedi gofyn i weithgor adolygu'r fformiwla ac ar ôl cynnal yr adolygiad, mae'r Fforwm wedi gwneud yr argymhellion a amlinellir ym mharagraff 3.2 o'r adroddiad. Eglurodd y swyddog fod y rhesymeg dros yr argymhellion wedi'i hamlinellu yn adran 3 y ddogfen ymgynghori sydd ynghlwm yn Atodiad 1 yr adroddiad.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor nad oedd unrhyw gynigion i leihau'r cyllid cyffredinol, ond bod yr argymhellion a amlinellir yn yr adroddiad yn cynnig ailddosbarthu arian mewn ffordd decach. Byddai barn y Pwyllgor Dethol yn cael ei ystyried gyda'r ymatebion i'r ymgynghoriad pan fydd y Weithrediaeth yn gwneud penderfyniad.

**Her:**

- Mae fy nghwestiwn cyntaf yn ymwneud â thegwch. Rwy'n awyddus i bawb gael eu trin yn gyfartal ac rwy'n credu, pryd bynnag y cawn gyfle i ystyried cyllid, y dylem fynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac anfantais. Mae rhai ysgolion yn gorfod gwario llawer o adnoddau ar fynd i'r afael ag anghydraddoldeb, felly byddwn yn dawelach fy meddwl pe gallem rywsut gydnabod effaith amddifadedd. *Mae'n anodd, yn y bôn yr un gronfa arian ydyw ac rydym yn ei ailddosbarthu mewn ffordd decach, ond byddwn yn ystyried hyn. Ceir grantiau gan Lywodraeth Cymru sy'n mynd i'r afael ag amddifadedd ac mae'r grantiau amddifadedd disgyblion sy'n mynd i ysgolion yn un o'r rhain, ond byddwn yn ystyried hyn.*
- Allwch chi gynnig mwy o esboniad i'r rhesymeg dros y newidiadau, y cyfiawnhad ac esbonio'r effeithiau ar ysgolion? *Disgrifiodd y swyddog yn fanwl y rhesymeg dros yr argymhellion, gan esbonio bod rhai ysgolion yn derbyn ffrydiau ariannu ar gyfer gwasanaethau nad oeddent bellach yn eu gweinyddu a bod adborth pob ysgol, drwy ymgynghori, wedi cael ei ystyried wrth wneud yr argymhellion.*

**Canlyniadau a Chasgliad y Cadeirydd:**

Cefnogodd y Pwyllgor y cynigion i newid y fformiwla cyllido ysgolion yn unol â chanfyddiadau ac argymhellion adolygiad y Fforwm Cyllido Ysgolion. Roeddent yn cydnabod nad yw'r cyllid cyffredinol ar gyfer ysgolion yn cael ei leihau, ond bod arian yn cael ei ddosbarthu mewn ffordd decach. Gofynnodd y Pwyllgor y canlynol:

- Bod y swyddog yn ystyried y ffordd orau o adlewyrchu materion amddifadedd.
- Bod y cytundeb lefel gwasanaeth ar y gyflogres yn cael ei anfon drwy e-bost at y Pwyllgor.

Atgoffodd y Cadeirydd y Pwyllgor y gall pob aelod etholedig fwydo eu sylwadau unigol drwy'r broses ymgynghori.

5. **Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol**

Roedd rhai diwygiadau i'w gwneud o ran presenoldeb yn y cyfarfod a gofynnwyd i'r Gwasanaethau Democrataidd ailystyried y daflen bresenoldeb a gwneud y diwygiadau angenrheidiol. Roedd Peter Strong, Fay Middleton a Maggie Harris, sy'n Aelodau Cyfetholedig, yn bresennol ond nid ydynt wedi'u rhestru. Yn ogystal, mae'r Cynghorydd Paul Pavia wedi'i restru fel Aelod Pwyllgor pan nad yw'n aelod ac mae'n mynychu er mwyn arsylwi.

6. **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc**

Trafododd y Rheolwr Craffu'r blaenraglen a chytunodd y Pwyllgor ar hyn.

7. **Blaenraglen Waith y Cyngor a'r Cabinet**

Nodwyd.

8. **Cadarnhau dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf**

Nodwyd.